

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Fawrth 2021 am 7:00pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Cyng Simon Jones  
Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Simon Jones yn egluro nad oedd mewn sefyllfa i ymuno mewn cyfarfodydd yn rhithiol. Penderfynwyd i gynnig cyfnod o chwe mis o absenoldeb i'r cyngorydd.

Nodwyd marwolaeth diweddar y cyn-Gyngorydd, Griffith Evans Thomas. Penderfynwyd i anfon cerdyn o gydymdeimlad at ei wraig, Mrs Gwyneth Thomas.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cyngorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 15 Chwefror 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cais Ariannol - Cerebra Palsy Cymru:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

5. Cais Ariannol - Tŷ Gobaith:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

6. Cais Ariannol - Elusen Ambiwylans Awyr Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

7. Cais Ariannol - Radio Ysbyty Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

8. Cais Ariannol - Cefnogaeth Canser Macmillan Cymru:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

9. Cais Ariannol - NSPCC Cymru:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

10. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101729	£188.52
Cyllid a Thollau EM	YG	101730	£47.00
B Gwilym	Deunydd swyddfa	101731	£13.70
B Gwilym	Teleffon	101732	£37.50
Zurich	Yswiriant	101733	£790.64
Jones & Jones	Pentref	101734	£129.60
Cyng Alan H Jones	Lwfans	101735	£150.00
Cyng Simon Jones	Lwfans	101736	£150.00
Elusen Ambiwylans Awyr	Rhoddd	101737	£50.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.  
Nodwyd bod safon gwaith contractwr y cyngor, sef Jones & Jones o safon uchel iawn.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Drafft - CCA3: Cynllunio a'r iaith Gymraeg:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Toiled Cyhoeddus:

Derbyniwyd llythyr yn egluro na fydd Cyngor Gwynedd yn anfon cytundeb newydd i'w lofnodi ar gyfer y cytundeb ble mae'r cyngor cymuned yn rhannol-ariannu'r toiled ym Mryncrug, gan nad oes unrhyw newid yn y manylion, heblaw am estyn y cytundeb am flwyddyn ychwanegol.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r cyngor fuddsoddi yn y toiledau er mwyn codi'r safon.

13. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Canolfan Brechu Tywyn:

Derbyniwyd e-bost gan Brif Weithredwraig y bwrdd iechyd yn egluro y camau y mae meddygfa Tywyn yn ei gymryd i ddiogelu cleifion bro Dysynni wrth iddynt ymweld a'r safle brechu lleol yn yr Ysbyty.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- ysbwriel fel stympiau sigarêts a chaniau Red Bull yn cael eu gadael ger y Pafiliwn ac ger eisteddle'r cefnogwyr
- Y matiau diogelwch wedi eu ail-osod gyda'r glud
- Y boltiau rylock wedi eu gosod ar yr offer
- Dau oedolyn wedi bod yn defnyddio'r cae chwarae er mwyn ymarfer cŵn
- Nodwyd bod cynghorydd wedi rhoi nodyn ar dudalen Facebook y pentref er mwyn hysbysu'r pentrefwyr nad yw cŵn i fod yn y cae chwarae
- nodwyd bod y prisiau canlynol wedi ei dderbyn ar gyfer sleid newydd £5,950 + TAW (GL Jones), £4,630 + TAW (PlayQuest), a £5,856.20 + TAW (Dragon Play & Sport).

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.  
I ofyn i swyddogion cymunedol yr heddlu (PCSO) gadw golwg ar y sefyllfa, gan edrych ar beth sydd yn cael ei adael ar ôl.  
I ysgrifennu at y Clwb Pêl-droed er mwyn gofyn oes rheswm pam bod y rhwydi yn parhau i fod ar y pyst, er nad oes gem wedi bod ers sawl mis.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- Wedi cael gohebiaeth parthed yn gofyn am wybodaeth ynglŷn a phwy sydd yn gyfrifol am rannu bagiau baw cŵn yn y pentref. Gyda Dysynni Dogs wedi datgan eu bwriad i gymryd cyfrifoldeb dros ail-lenwi y biniau baw ci gyda bagiau
- Cyngor Gwynedd wedi penderfynu codi y premiwm ar ail-gartrefi a thai gwag
- Aelod o'r cyhoedd wedi adrodd bod twll yn y ffodd ger, Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i'r mater ac wedi cau y ffordd dros dro er mwyn sicrhau diogelwch

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi codi mater o bryder gyda cynghorydd am nifer o geir yn parcio ar ochr y ffordd, gyda'r ceir yn cael eu parcio am dyddiau oherwydd eu bod yn defnyddio'r safle er mwyn hysbysebu ceir ar werth.

**PENDERFYNIAD:** I godi'r mater gyda Chyngor Gwynedd.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:47pm

Llofnod y Cadeirydd .....